## PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 9 Mai 2001 |
| **Amser:** | 2.00 to 5.00 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## ADRODDIAD GAN Y GWEINIDOG DROS YR AMGYLCHEDD

## CYNLLUN TRAFNIDIAETH GWYRDD Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL

Fe wnaethom ddechrau ar brosiect y Cynllun Trafnidiaeth Gwyrdd ym mis Ionawr. Bwriedir cwblhau Cynllun Trafnidiaeth Gwyrdd ar gyfer Parc Cathays a Bae Caerdydd erbyn diwedd mis Gorffennaf. Mae’r prosiect yn mynd rhagddo yn unol â’r amserlen.

Anfonwyd holiadur teithio at holl staff ac Aelodau’r Cynulliad ar 14 Mawrth. Derbyniwyd 1271 o ymatebion ac maent yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. Cynhaliwyd arolwg teithio o ymwelwyr â’r ddau safle rhwng 13 – 16 Mawrth. Derbyniwyd 27 ymateb gan ymwelwyr ag Adeiladau’r Goron a 54 gan ymwelwyr ag Adeilad y Bae. Cynhaliwyd asesiadau o’r safleoedd er mwyn darganfod pa gysylltiadau trafnidiaeth sydd iddynt a pha gyfleusterau sydd ar gael ar y safleoedd ar hyn o bryd. Mae adolygiadau o’r polisi ar barcio ceir a defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn mynd rhagddynt.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chyflogwyr lleol eraill, gan gynnwys Cyngor Sir Caerdydd, Grosvenor Waterside a Phrifysgol Cymru er mwyn chwilio am gyfleoedd i gydweithio. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i fapio codau post cartrefi ac fe ddefnyddir y wybodaeth hon, ynghyd â chanlyniadau’r arolwg, i’n cefnogi yn ein trafodaethau gyda chwmnïau trafnidiaeth lleol ar wella gwasanaethau. Rydym hefyd yn cynnal adolygiad o’n polisïau personél.

## GWARCHOD YR AMGYLCHEDD

### Glas Cymru/Dwr Cymru

Mae Glas Cymru wedi lansio'r bondiau y bydd yn eu defnyddio i godi'r £2bn sydd ei angen arno er mwyn prynu Dwr Cymru oddi wrth Western Power Distribution. Gan gymryd y bydd y cynllun bondiau hwn yn llwyddiannus, mae Glas Cymru yn gobeithio y bydd y broses o brynu'r cwmni wedi'i chwblhau erbyn canol mis Mai.

Mewn cyhoeddiadau cynharach, cadarnhawyd bod United Utilities wedi ennill y contract ar gyfer gwaith dwr/trin carthion Dwr Cymru, a bod Thames Water wedi ennill y contract ar gyfer y gwaith gwasanaethu cwsmeriaid. Mae'r staff perthnasol bellach wedi'u trosglwyddo. Mae'r ddau gwmni wedi cyhoeddi y byddant yn cadw at yr addewid i beidio â gorfodi diswyddiadau fel a nodir yng nghytundeb partneriaeth Hyder â'r Undebau Llafur.

## CEFN GWLAD

### Penodiadau i Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Pharciau Cenedlaethol Cymru

Er gwybodaeth i'r Pwyllgor, mae'r cylch presennol o benodiadau i Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Parciau Cenedlaethol wedi'i gwblhau. Mae Atodiad A yn rhoi adroddiad ar y broses a manylion bywgraffyddol byr y rhai sydd wedi'u penodi.

### Clwy'r Traed a'r Genau – Mynediad i Gefn Gwlad

Ar 5 Ebrill, fe anfonais ganllawiau newydd pwysig at awdurdodau lleol ar fynediad i gefn gwlad dros gyfnod argyfwng clwy'r traed a'r genau. Mae'r canllawiau yn rhoi cyngor ymarferol ar agor rhai llwybrau a chyfleusterau cyhoeddus eraill ar sail asesiad o risg.

Er mwyn cael cymaint o gysondeb â phosibl yn y maes hwn ar lefel leol, rwyf hefyd wedi anfon copïau o'r canllawiau hyn at y Parciau Cenedlaethol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain a'r Comisiwn Coedwigaeth.

Mae'r awdurdodau lleol a'r cyrff eraill a dderbyniodd y canllawiau hyn wedi'u croesawu.

## CYNLLUNIO

### Polisi Carthu Agregau'r Môr (De Cymru)

Dylai'r aelodau fod yn ymwybodol y cyhoeddir drafft ymgynghorol *Polisi Carthu Agregau'r Môr* at ddiben ymgynghori cyffredinol ar 16 Mai. Diben y ddogfen yw rhoi cyd-destun polisi strategol i'r Cynulliad wrth iddo benderfynu ar geisiadau am drwyddedau i garthu agregau o Fôr Hafren ac Aber Hafren.

Bydd y ddogfen ddrafft yn cael ei hanfon at bob aelod o'r Pwyllgor yn unigol, a chroesewir sylwadau'r aelodau. Bydd y ddogfen yn cael ei chyhoeddi at ddiben ymgynghori ar 16 Mai a'r dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau fydd dydd Gwener 27 Gorffennaf. Bwriedir cyhoeddi'r ddogfen derfynol erbyn diwedd 2001.

### Nodyn Cyngor Technegol ar Ddylunio

Rwyf wedi cymeradwyo cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12 'Dylunio' at ddiben ymgynghori yn fuan. Datblygwyd y TAN gan aelod o staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sydd ar secondiad i'r Cynulliad o dan ofal yr Is-adran Gynllunio. Cwblhawyd y gwaith hwn ar ôl ymgynghori â chydweithwyr yn Is-adrannau eraill y Cynulliad ac aelodau o'r Grwp Llywio Dylunio sy'n cynnwys Cymdeithas Frenhinol Penseiri Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ysgolion Cynllunio a Phensaernïaeth Prifysgol Caerdydd a chyrff ac unigolion o faes dylunio.

Paratowyd y TAN diwygiedig fel rhan o'r Fenter Gynllunio a lansiais ym mis Awst y llynedd er mwyn codi safon cynllunio yng Nghymru. Y bwriad yw y bydd y TAN Dylunio terfynol yn cael ei gymeradwyo yn yr hydref.

Mae copïau o'r TAN diwygiedig wedi'u hanfon at holl aelodau'r Pwyllgor EPT.

### Cynlluniau Datblygu Unedol

Dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol bod siart sy'n dangos y camau tuag at fabwysiadu Cynlluniau Datblygu Unedol i'w gweld ar wefan y Cynulliad; mae'n dangos y sefyllfa ar ddiwedd mis Mawrth yn dilyn derbyn ffurflenni monitro chwarterol holl awdurdodau cynllunio lleol Cymru. Bydd yn cael ei diweddaru bob tri mis.

## TRAFNIDIAETH

**Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd**

Yn dilyn cyflwyno'r Ddogfen Ymgynghorol ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 4 Ebrill, a'r sylwadau defnyddiol a dderbyniwyd gan yr aelodau, mae'r ddogfen wedi'i diwygio. Bydd y broses ymgynghori yn parhau gyda chynhadledd ar 15 Mai ar gyfer cynrychiolwyr sydd â diddordeb mewn diogelwch ar y ffyrdd. Bydd y Strategaeth ddrafft yn cael ei diwygio yng ngoleuni'r ymatebion a geir yn y Gynhadledd, ac yna'n cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghori cyhoeddus llawn yn yr haf.

**Ymweliadau**

Roeddwn yn bresennol ar gyfer lansio llyfr Canolfan Ymchwil Trafnidiaeth Cymru "An Agenda for Transport in Wales" ddydd Llun 30 Ebrill.

**Sue Essex**

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd**